

UCU

University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

PEDAIR BRWYDR UN LLAIS

- Cydraddoldeb ● Sicrwydd swyddi
- Baich gwaith teg ● Cyflog teg

CEFNOGWCH Y STREICIAU

www.ucu.org.uk

PAM YDYN NI'N MYND AR STREIC?

Staff prifysgol sy'n aelodau o Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) ydym ni, ac rydym yn mynd ar streic dros gyflog sy'n gostwng, y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau ac yn achos lleiafrifoedd ethnig, arferion cyflogaeth ansicr, a llwythi gwaith annioegel. Mae'r prifysgolion, sef ein cyflogwyr, wedi methu â mynd i'r afael â'r materion hyn, dro ar ôl tro.

CRYN LAWER O SIARAD, DIM GWEITHREDU

Ers 2009, mae ein cyflog wedi cael ei dorri bron i 20% i bob pwrpas, tra gofynnir i staff weithio'n galetach ac yn hirach nag erioed o'r blaen. Mae dadansoddiad y cyflogwyr eu hunain yn tynnu sylw at y ffaith bod menywod a staff croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn dioddef camwahaniaethu sylweddol o ran eu cyflog. Mae contractau achlysurol yn parhau i fod yn rhan annatod o'r system. Ac eto, mae'r prifysgolion sy'n ein cyflogi yn gwrthod ymrwymo eu hunain i weithredu ystyrlon ar unrhyw un o'r amodau gwarthus hyn.

MYND AR STREIC YW'R CAM OLAF BOB TRO

Mae aelodau UCU eisiau bod yn y gwaith, nid ar streic, ond mae dyfodol addysg uwch dan fygythiad. Mae anghydraddoldeb cynyddol yn effeithio ar fyfyrwyr a staff - mae amodau gwaith gwael yn golygu amodau dysgu gwael.

Mae aelodau UCU yn parhau i ofyn i'n cyflogwyr ac arweinwyr y prifysgolion weithio gyda ni, dod â'r streiciau i ben, ac osgoi tarfu eang ar fyfyrwyr, staff, eu teuluoedd, a'r gymuned.

GELLIR DATRYS YR ANGHYDFOD

Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2019, aeth miloedd o aelodau ar streic am wyth diwrnod fel rhan o'r anghydfod hwn. Cafwyd cynnig gwell gan y cyflogwyr. Ystyriodd Pwyllgor Addysg Uwch yr undeb (HEC) y cynnig, ac er bod ychydig o gynnydd wedi cael ei wneud, nid oedd yn agos at fod yn ddigon i setlo'r anghydfod. Nid yw'n rhy hwyr i'r cyflogwyr wella eu cynnig er mwyn ceisio datrysiaid i'r anghydfod hwn.

CEFNOGWCH EIN STREIC

Gofynnwn i chi sefyll yn gadarn gyda ni ac amddiffyn addysg uwch.

- Gallwch ganfod mwy am yr hyn sydd yn y fantol trwy ymweld â www.ucu.org.uk/fourfights
- Ewch draw i'r llinellau piced i fynegi'ch cefnogaeth
- Trydarwch eich cefnogaeth gan ddefnyddio'r hashnod **#UCUstrike**
- E-bostiwch yr is-ganghellor i ofyn am drafodaethau o'r newydd - gallwch wneud hyn ar-lein yn www.ucu.org.uk/studentvoice drwy nodi enw eich sefydliad
- Cefnogwch staff sydd ar streic a gwnewch gyfraniad at gronfa frwydro UCU yn www.ucu.org.uk/fightingfund